# Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Ebrill 2022 – Mawrth 2023

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Mental Health Review Tribunal for Wales

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth | 4 |
| **Adran 2** | Asesu Cydymffurfiaeth | 4 |
| **Adran 3** | Adrodd ar waith a wnaed yn 2022-2023 | 5 |
| **Adran 4** | Gwaith sydd i ddod 2023-2024 | 6 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48552, ISBN digidol 978-1-83504-780-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Dyma seithfed adroddiad blynyddol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("y Tribiwnlys") ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

Mae dwy ran i'r Tribiwnlys, sef yr ysgrifenyddiaeth a'r aelodau. Mae'r ddwy ran hynny'n gweithio gyda'i gilydd, yn ystod y broses apelio a hawlio gan wneud tasgau gwahanol. Yr aelodau yw:

- llywydd y Tribiwnlys, hynny yw yr arweinydd barnwrol;
- pedwar Dirprwy Lywydd;
- cadeiryddion cyfreithiol;
- aelodau proffesiynol meddygol; ac
- aelodau lleyg.

Mae'r tribiwnlys, ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae gan y tribiwnlys 16 aelod (4 aelod cyfreithiol, 5 aelod meddygol a 7 aelod lleyg) sydd â sgiliau Cymraeg cryf, a gellir cynnull panel llawn (hynny yw cadeirydd cyfreithiol, aelod proffesiynol ac aelod lleyg) a all glywed a chynnal gwrandawiad llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am weinyddu tribiwnlysoedd ac yn ymdrin â phob ymholiad ffôn a phob ymholiad ysgrifenedig. Maent yn weision sifil a gyflogir gan Lywodraeth Cymru ac yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Mae gan dîm yr ysgrifenyddiaeth un aelod sy'n rhugl yn y Gymraeg, ac mae'n gallu cael cymorth gan Ysgrifenyddiaethau eraill Uned Tribiwnlysoedd Cymru, yn ôl yr angen. Mae Uwch Reolwr Gweithrediadau a Phennaeth Tribiwnlysoedd Cymru hefyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

**Dyddiad cyhoeddi:** 29/09/23

**Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:** mhrt@llyw.cymru

# Adran 1 – Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth

Lluniwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac fe'i llofnodwyd gan Lywydd y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymddangos ar wefan y Tribiwnlys ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod ei fod wedi cael ei gyhoeddi.

# Adran 2 – Asesu Cydymffurfiaeth

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau drwy'r camau canlynol:

- Rhoi canllawiau i staff ar ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn a negeseuon e-bost.
- Darparu templedi llythyrau sy'n cynnig cyfle i ddefnyddwyr y Tribiwnlys gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae llythyrau a negeseuon e-bost oddi wrth y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol yn datgan bod gohebiaeth yn cael ei chroesawu yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys ffurflenni cais a dogfennau canllawiau. Mae fersiynau Saesneg o ddogfennau a ffurflenni a gynhyrchir gan y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol sy'n datgan eu bod ar gael yn Gymraeg, ac y gall y cyhoedd gyflwyno gwybodaeth i'r Tribiwnlys yn Gymraeg.
- Sicrhau bod ymwybyddiaeth bod darpariaeth ar waith sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg, ac y gall y rhai sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiad.
- Mae pob tudalen o'n gwefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru system ffôn newydd drwy Microsoft Teams ym mis Ebrill 2021. Mae'r Tribiwnlys yn defnyddio'r system newydd hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 drwy sicrhau y bydd gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwyso 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwyso 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.

## Defnyddio ein Gwasanaethau:

Daeth 1746 o geisiadau i law'r Tribiwnlys yn 2022-23 a chynhaliwyd 1010 o wrandawiadau. Ni chafodd y gwrandawiadau hyn eu cynnal yn Gymraeg. Roedd 6 o'r ceisiadau wedi gofyn am gael cyfieithydd Cymraeg mewn gwrandawiad, ond dim ond 3 o'r achosion hyn a aeth i wrandawiad.

## Gwefannau

Nodir isod ddadansoddiad o faint o weithiau yr ymwelwyd â thudalen hafan Gymraeg a Saesneg y Tribiwnlys ar y rhyngrwyd.

| | Saesneg | Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â'r dudalen | 1,952 | 114 | 2,066 |

## Safonau Llunio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'i ddeddfwriaeth lywodraethol. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Er hynny, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar ddarparu ein gwasanaethau yn Gymraeg.

## Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio'r Tribiwnlys (sy'n manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys: www.tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2019-06/180711-mhrtw-welsh-lang-standards-compliance-cy.pdf. Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a ddaw i law, os oes rhai, sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau.

## Cwynion

Ni dderbyniodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion mewn perthynas â gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

# Adran 3 – Adrodd ar waith a wnaed yn 2022-2023

Mae'r tabl isod yn adrodd ar gynnydd 'Gwaith sydd i ddod' a gafodd ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2021-2022.

| | Camau gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 1. | Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo ac annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â'r Tribiwnlys. | **Amcan wedi'i gyflawni**. Mae camau gweithredu wedi'u datblygu a fydd yn bwydo i mewn i Gynllun Rhanbarthol Uned Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer 2023-24. |
| 2. | Bydd y Tribiwnlys yn cynnal archwiliad o sgiliau aelodau Cyfreithiol, Meddygol a Lleyg y Tribiwnlys. Diben hynny yw adolygu ein cofnod o'r rhai a fyddai'n gallu cynnal gwrandawiad Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg. | **Amcan wedi'i gyflawni**. Gellir gweld canlyniadau'r archwiliad o dan ragair yr adroddiad hwn, lle mae'n manylu ar nifer yr aelodau sy'n gallu cynnal gwrandawiad heb fod angen cyfieithydd arnynt. Roedd dau aelod wedi methu ymateb i'r archwiliad ar y pryd. |
| 3. | Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i gynllunio system hunanreoleiddio o ran cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ar gyfer y Tribiwnlys. | **System wedi'i chynllunio**. Mae dau holiadur 'ticio blychau' wedi'u llunio, un ar gyfer clercod ac un ar gyfer y rheolwr busnes. Mae'r rhain yn helpu i brocio'r cof a gwirio gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg. I'w weithredu yn 2023-24. |
| 4. | Bydd dogfen ganllaw hefyd yn cael ei chynhyrchu i roi cyfarwyddiadau i'r Tribiwnlys ar sut i gael gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd, ac ar hwyluso cyfarfodydd dwyieithog drwy blatfformau fideo-gynadledda. | **System wedi'i chynllunio**. Nid yw'r canllawiau ar gyfer y system wedi'u cwblhau gan fod fframwaith cyfieithu newydd yn cael ei gaffael. Unwaith y bydd y fframwaith newydd ar waith, bydd y canllawiau'n cael eu cwblhau. I'w weithredu yn 2023-24. |

# Adran 4 – Gwaith sydd i ddod 2023-2024

1. Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr y gwasanaeth i nodi rhwystrau rhag rhyngweithio â'r Tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Nodi gwelliannau y gellir eu gwneud a'u rhoi ar waith yn ystod 2023/24 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein tribiwnlysoedd.

3. Darparu hyfforddiant i holl aelodau'r tribiwnlys a staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg yn ei gwrandawiadau ac mewn perthynas â chyfathrebu ehangach, ac o rwymedigaethau'r tribiwnlysoedd o dan Safonau'r Gymraeg.